MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

MURLUNIAU CELF STRYD

Ydych chi wedi sylwi ar y murluniau celf stryd newydd o gwmpas y ddinas yn ddiweddar?

Mae'r Cyngor, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid a grwpiau cymunedol, wedi comisiynu nifer o furluniau'n rhan o'n hymdrechion i wella ansawdd amgylcheddol lleol y ddinas.

Nod y prosiectau yw dathlu treftadaeth y ddinas, ychwanegu lliw i leoliadau allweddol, a chynyddu teimladau o falchder a chysylltiad yn yr ardal leol.



ARGYFWNG COSTAU BYW: CYMORTH I DRIGOLION

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i helpu trigolion yn ystod yr argyfwng costau byw, yn benodol y rheiny fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod costau sy'n cynyddu'n gyflym yn effeithio ar lawer mwy o deuluoedd ac unigolion nag erioed.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig cyngor a chymorth i gymaint o bobl â phosibl ac yn annog pobl i gysylltu os ydynt yn ei chael yn anodd yn ariannol.

Mae'r cymorth yn cynnwys:

- **Cynllun cymorth tanwydd y gaeaf - taliad arian parod untro i un aelod o aelwyd sy'n gyfrifol am dalu'r biliau trydan/nwy/dŵr.**
- **Prydau ysgol am ddim i bob disgybl dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yng Nghasnewydd. Mae cynlluniau i gyflwyno hyn i bob disgybl ysgol gynradd cyn gynted â phosibl.**
- **Cymorth ychwanegol i rai grwpiau o bobl dan gam disgresiynol y cynllun cymorth costau byw**
- **Cynllun talu amgen i bobl sy'n ei chael yn anodd talu eu treth gyngor**
- **Banciau bwyd yn gweithredu ledled y ddinas**
- **Taliadau tai yn ôl disgresiwn i'r rheiny sy'n cael trafferth talu eu rhent**
- **Cronfa cymorth dewisol i helpu i dalu costau hanfodol neu i helpu pobl i fyw'n annibynnol**

Ar ddechrau'r mis hwn, cynhaliwyd digwyddiad lle daeth gwasanaethau'r Cyngor a sefydliadau'r trydydd sector ynghyd i gynnig cyngor wyneb yn wyneb i drigolion.

Bydd timau'r Cyngor yn parhau i roi gwybodaeth ddefnyddiol drwy eu gwaith dyddiol yn ein cymunedau.

Mae tudalen cymorth a chyngor ar wefan y Cyngor gyda dolenni at gymorth y gall y Cyngor a sefydliadau eraill ei roi ac mae'r dudalen hon yn cael ei diweddaru'n barhaus: **newport.gov.uk/cymorth**. Neu, ffoniwch **01633 656656**.

HAWLIO'R HYN SY'N DDYLEDUS I CHI!

Os nad ydych yn siŵr pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio, gall Advicelink Cymru eich helpu i wirio a hawlio'r hyn sy'n ddyledus i chi.

Cysylltwch ag un o'n hymgynghorwyr heddiw drwy ffonio'r llinell gymorth am ddim ar **0808 250 5700**.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo £100,000 i gynorthwyo grwpiau bwyd cymunedol sy'n ymroddedig i helpu trigolion wrth i gostau byw barhau i gynyddu.

Mae cynllun newydd i helpu'r sefydliadau hyn nawr ar agor ar gyfer ceisiadau ar ôl cael ei lansio gan y Cyngor mewn partneriaeth â'r sefydliad cymorth gwirfoddol CMGG.

Gall banciau bwyd, a grwpiau eraill sy'n helpu trigolion sy'n ei chael yn anodd yn ariannol, wneud cais am grantiau i gynorthwyo gyda chostau beunyddiol fel prynu bwydydd i ail-lenwi eu stociau.

Mae cynllun cynharach, a redir ar y cyd â CMGG hefyd, yn rhoi cymorth ariannol i fentrau fel prosiectau tyfu neu uwchraddio offer er mwyn helpu grwpiau i wynebu'r her o fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd.

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud cais am yr arian, ewch i **gavo.org.uk/newportfood**

PARÊD SUL Y COFIO

Bydd Parêd a Gwasanaeth blynyddol Sul y Cofio ar ddydd Sul 13 Tachwedd yng nghanol dinas Casnewydd.

Bydd y rheiny a wahoddir i gymryd rhan yn y parêd yn cynnwys banerwyr, cyn-filwyr, aelodau o'r Lleng Brydeinig Frenhinol, y Lluoedd Arfog, cymdeithasau, cynghorwyr, cynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys a grwpiau ieuenctid.

Bydd ffyrdd ar gau o 7am tan 1pm. Ymhlith y ffyrdd a fydd ar gau bydd: Upper Dock Street (o Skinner Street i gylchfan yr Old Green), cylchfan Old Green (gan gynnwys y ffyrdd ymuno/ymadael), Newport Bridge, Clarence Place, Caerleon Road (o Clarence Place i Church Road), Chepstow Road (o Clarence Place i Cedar Road), Corporation Road (o Clarence Place i St Vincent Road) ac East Usk Road (o Clarence Place i Tregare Street).

Bydd gwasanaeth Cofio'r Llynges Fasnachol yn Mariners Green ar ddydd Sadwrn 19 Tachwedd.

NEGES Y NADOLIG – YR ARWEINYDD A'R MAER

Wrth i ni nesáu at dymor y Nadolig, rwy'n edrych ymlaen at y digwyddiad Ar Drywydd y Nadolig ar 19 Tachwedd yng nghanol y ddinas.

Mae'r neges "siopwch yn lleol" yn bwysicach nawr nag erioed, ar ôl i'n hadwerthwyr, bwytai, tafarndai, caffis a mannau hamdden brofi effaith y cyfnodau clo a Covid dros y blynyddoedd diwethaf.

Ac maen nhw bellach yn wynebu'r argyfwng costau byw hefyd. Mae'n ergyd ddwbl wrth iddynt weld eu costau eu hunain yn cynyddu, tra bod eu cwsmeriaid hefyd yn gorfod gwneud penderfyniadau ariannol anodd.

Byddaf yn annog pawb i wneud eu siopa Nadolig mor agos at adref â phosibl i gefnogi busnesau lleol ac, yn bwysig, sicrhau y gallant barhau i'n gwasanaethu a chyflogi pobl leol.

Mae'n amser i feddwl am bobl eraill hefyd, felly os gallwch, cefnogwch y sefydliadau hynny yng Nghasnewydd sy'n darparu achubiaeth i'r rheiny mewn argyfwng y gaeaf hwn.

Y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd y Cyngor

Ar ran fy hun a'r faeres, dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddinasyddion.

Mae tymor y Nadolig yn gyfnod pwysig iawn o'r flwyddyn, pan fyddwn yn dod ynghyd â'n teuluoedd, ein ffrindiau a'n hanwyliaid i hel atgofion, dathlu ac edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod.

Mae wedi bod yn wych cyfarfod â chynifer o ddinasyddion a grwpiau cymunedol yn ystod fy chwe mis cyntaf fel maer. Mae bod yn gefn i'n gilydd mewn amseroedd heriol yn bwysig, ac mae wedi bod yn wych gweld cymaint o bobl yn dangos hyn ledled y ddinas.

Fel y soniwyd yn gynharach, mae costau byw yn cynyddu. Mae'n wych gweld elusennau'r ddinas yn dod ynghyd i roi cefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen y mwyaf, drwy fentrau fel grantiau bwyd cymunedol.

Drwy gydol fy nghyfnod fel maer, byddaf yn cefnogi dwy elusen sy'n gwneud hynny'n union: Elliot's Endeavours to End Duchenne a The Burnt Chef Project.

Mae Elliot's Endeavours yn ymdrech i godi arian a gychwynnwyd gan rieni bachgen bach lleol, Elliot, a gafodd ddiagnosis o Nychdod Cyhyrol Duchenne yn 3 oed.

Maen nhw'n codi arian i gefnogi Duchenne UK, er mwyn ei helpu i gyflymu triniaethau ar gyfer yr afiechyd a gwneud y triniaethau hyn ar gael yn fwy eang.

Nod The Burnt Chef Project yw ceisio dileu stigma o ran iechyd meddwl yn y sector lletygarwch, gan gefnogi gweithwyr lletygarwch drwy amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr elusennau hyn ar dudalennau swyddfa'r maer ar wefan y Cyngor.

Dymuniadau gorau i chi ar gyfer 2023.

Y Cynghorydd Martyn Kellaway. Maer Casnewydd

DIWRNOD HAWLIAU'R GYMRAEG

7 Rhagfyr bob blwyddyn yw Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.

Dyma gyfle i sefydliadau cyhoeddus fel Cyngor Dinas Casnewydd hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac annog pob aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg i'w defnyddio yn y gweithle.

Mae gan bob siaradwr Cymraeg yr hawl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg heb orfod gofyn am y gwasanaethau hynny.

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn nodi'r dyddiad y cafodd Mesur y Gymraeg ei basio gan Senedd Cymru.

Mae'r mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, sy'n sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y ddinas ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i sicrhau y bodlonir hawliau holl siaradwyr Cymraeg.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig mewn llythyrau a negeseuon e-bost, arwyddion, sgwrs dros y ffôn ac arwyddion ffordd, i gyd yn Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **comisiynyddygymraeg.cymru/eich-hawliau**

GWAITH I AILWAMPIO ADEILADAU'R CYNGOR AR Y TRYWYDD IAWN

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda yn adeilad y Llyfrgell Ganolog ac Amgueddfa, ac mae ar y trywydd iawn i ailagor ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mae adeilad Sgwâr John Frost ar gau tra bod gwaith yn cael ei wneud yn yr adeilad i greu "canolfan wybodaeth" a fydd yn cynnwys cyntedd mwy deniadol.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, bydd yr adeilad yn gartref i rai gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal â'r llyfrgell, amgueddfa a'r oriel gelf.

Tra bod yr adeilad ar gau, gall defnyddwyr y llyfrgell ddefnyddio'r llyfrgell dros dro yn Ffordd y Brenin gerllaw. Cynigir gwasanaethau benthyg, mynediad i gyfrifiaduron cyhoeddus a rhai adnoddau ymchwil i deuluoedd.

Y KNIFE ANGEL YN DOD I GASNEWYDD

Bydd cerflun nodedig y Knife Angel yn dod i ganol dinas Casnewydd wrth iddo barhau ar ei daith o gwmpas y DU.

Cafodd y cerflun, sydd wedi ei greu o dros 100,000 o gyllyll gafodd eu hatafael, ei greu'n benodol i dynnu sylw at effeithiau negyddol ymddygiad treisgar a'r angen am newid cymdeithasol.

Bydd yn yr Usk Plaza, rhan waelod Friars Walk, gydol mis Tachwedd.

Bydd y fenter, fydd yn cael ei harwain yng Ngwent gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, hefyd yn cynnal gweithdai mewn ysgolion a sesiynau ymwybyddiaeth fydd yn cefnogi nod y Knife Angel i addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion am yr effeithiau andwyol mae ymddygiad treisgar yn ei chael ar gymunedau ledled y DU.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **britishironworkcentre.co.uk/the-knife-angel-official**

DIWRNOD Y RHUBAN GWYN

Eleni, mae Diwrnod y Rhuban Gwyn yn cael ei gynnal ar 25 Tachwedd, yr un wythnos â dechrau Cwpan y Byd FIFA.

Gall pob dyn ymuno â'r tîm i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Anogir pawb i wneud Addewid y Rhuban Gwyn i beidio byth â defnyddio, esgusodi neu aros yn dawel am drais yn erbyn menywod a merched.

Gellir gwneud yr Addewid ar wefan Rhuban Gwyn y DU: **whiteribbon.org.uk**

DYMA'R NADOLIG YN DOD...

Images supplied by Newport Now

Mae digwyddiad Ar Drywydd y Nadolig poblogaidd ac arbennig Casnewydd yn cael ei gynnal yng nghanol y ddinas ddydd Sul 19 Tachwedd.

Bydd y digwyddiad rhwng 3pm a 5.15pm ac yn cynnwys cerddoriaeth fyw, reidiau ffair ar hyd glan yr afon a Commercial Street, gwesteion enwog, cynnau goleuadau Nadolig canol y ddinas am 5pm ac arddangosfa tân gwyllt syfrdanol am 5.15pm.

Wedi'i drefnu gan Ardal Gwella Busnes (AGB) Newport Now mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd, Friars Walk a Radio Dinas Casnewydd, bydd y prif lwyfan ar gyffordd Charles Street a Commercial Street.

Denodd y digwyddiad y llynedd dros 8,000 o bobl ychwanegol i ganol y ddinas o gymharu â dydd Sadwrn arferol.

Bydd perfformwyr cerddorol enwog ar y llwyfan yn ystod y dydd ynghyd â pherfformwyr lleol, a bydd gwestai enwog arbennig yn helpu maer y ddinas, y Cynghorydd Martyn Kellaway, i wthio'r botwm i oleuo canol y ddinas ar gyfer yr ŵyl.

Dywedodd cadeirydd AGB Newport Now, Zep Bellavia: *"Fel arfer, byddwn yn cynnig rhywbeth i'r teulu cyfan ac mae'r digwyddiad Ar Drywydd y Nadolig yn nodi dechrau swyddogol cyfnod masnachu'r ŵyl ar gyfer canol y ddinas. Mae cefnogi eich busnesau lleol y Nadolig hwn yn bwysicach nag erioed."*

Dywedodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Jane Mudd: *"Mae'r digwyddiad Ar Drywydd y Nadolig eleni yn addo bod yn ddechrau gwych i'r ŵyl.*

"Bydd hefyd yn hwb mawr i fusnesau lleol ac mae hynny'n hynod bwysig yn y cyfnod heriol hwn. Gobeithio y bydd pobl yn "siopa'n lleol" i gefnogi ein manwerthwyr, ein bwytai, ein bariau a'n cyfleusterau hamdden y Nadolig hwn."

O YDY MAE E!

Mae panto yn dychwelyd i ganolfan Glan yr Afon ar ddiwedd y mis ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd oherwydd y pandemig.

Bydd Robin Hood ar ein llwyfan rhwng 29 Tachwedd a 7 Ionawr gyda pherfformiadau arbennig ar gyfer ysgolion; sioe "hamddenol" ac un a fydd â sain ddisgrifiad ac iaith arwyddo.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **newportlive.co.uk/riverfront** neu ffoniwch **01633 656557**.
Am ragor o ddigwyddiadau'r Nadolig, ewch i **newport.gov.uk/whatson**

GALW AM BOBL I GEFNOGI FFOADURIAID IFANC

Bob blwyddyn mae tua 36 miliwn o bobl ifanc yn cael eu dadleoli oherwydd gwrthdaro a thrais.

Mae Maethu Cymru, sy'n cynnwys pob un o 22 awdurdod lleol Cymru, gan gynnwys Casnewydd, wedi cyhoeddi galw brys am bobl i helpu'r bobl ifanc hyn sydd mewn angen.

Disgrifiodd un gofalwr maeth o Gasnewydd ei brofiad:
"Mae wedi ehangu fy nealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau ac rwyf wedi sylweddoli bod pawb yn debyg. Rydyn ni i gyd eisiau'r un pethau.

"Gofalais i am un dyn ifanc a briodod y llynedd, roedd e gyda fi am dair blynedd. Mae e'n dal i siarad â fi bob wythnos. Mae e'n trin fi fel ei dad ac mae eraill hefyd sy'n dal i fyw yn yr ardal leol ac rwy'n eu gweld yn rheolaidd.

Mae'r rhain yn bobl ifanc sydd angen ein help a'n diogelwch, ac rwy'n ystyried hynny'n bwysig iawn. Rwy'n gwybod fy mod yn gwneud gwahaniaeth."

Cysylltwch â thîm Maethu Cymru Casnewydd drwy e-bostio fostering@newport.gov.uk, ffonio 01633 210272 neu fynd i **fosterwales.newport.co.uk**

EDRYCH YN ÔL AR WYL FWYD CASNEWYDD

Fis diwethaf, roeddwn wrth ein bodd o ddod â Gŵyl Fwyd Casnewydd yn ôl i ganol y ddinas ar ôl dwy flynedd o absenoldeb oherwydd Covid.

Roedd llawer o ddanteithion blasus ac adloniant, yn ogystal ag arddangosiadau coginio gwych gan gogyddion lleol.

Dyma rai o'n hoff luniau o'r diwrnod!

CLWB SWYDDI YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL GAER

Mae clwb swyddi wythnosol newydd yn cael ei gynnal bob dydd Mawrth yng Nghanolfan Gymunedol Gaer.

Bydd staff wrth law i helpu gyda'r canlynol:

- **Diweddaru eich CV**
- **Chwilio am swydd**
- **Cymorth i ymgeisio am swyddi**
- **Cyrsiau hyfforddiant am ddim**

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch **westhub@newport.gov.uk**

BYDDWCH YN BAROD Y GAEAF HWN

Wrth i ni ddechrau misoedd y gaeaf, dylem wneud popeth a allwn ni i gadw ein hunain a'n hanwyliaid yn ddiogel ac yn iach. Gallwn ni hefyd helpu i leihau'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol Casnewydd.

Mae ein partneriaid ym maes iechyd yn galw ar bobl i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r gwasanaeth cywir er mwyn cael help a chefnogaeth.

Am gyflyrau nad ydyn nhw'n peryglu bywyd nac yn ddifrifol, cynghorir pobl i gysylltu â'u meddygfa neu ffonio gwasanaeth GIG 111 sy'n gallu rhoi cyngor a galwyr uniongyrchol i'r cymorth priodol.

Ar gyfer mân anafiadau, mae unedau yn ysbyty Brenhinol Gwent neu Ystrad Mynach ar gael.

GOFALU AM GYMDOGION

Gall cynnig dod â rhywfaint o siopa fod yn help mawr yn ystod misoedd y gaeaf, yn enwedig yn ystod tywydd garw.

Gall pethau syml fel sicrhau eu bod yn cadw'n gynnes ac yn amddiffyn eu hunain rhag y peryglon y mae'r tywydd oer yn eu hachosi fod o gymorth mawr.



Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **ageuk.org.uk**

BYDDWCH YN BAROD AM Y TYWYDD

Daw'r gaeaf â thywydd oer a gwlyb.

I baratoi ar gyfer y tywydd garw, mae'r Swyddfa Dywydd yn cynghori pobl i gymryd camau i baratoi eu cerbydau, eu cartrefi a'u busnesau ar gyfer misoedd y gaeaf.

Gall meddwl ymlaen llaw a pharatoi ar gyfer yr hyn y gallai'r tywydd ei achosi'r gaeaf hwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Am fwy o wybodaeth a chyngor ewch i **metoffice.gov.uk/WeatherReady**

CYNNAL A CHADW DROS Y GAEAF

Wrth i ni ddechrau symud drwy fisoedd y gaeaf, mae'r cyngor yn ceisio sicrhau cyn lleied o amharu ar wasanaethau.

Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw pethau i weithio mor llyfn â phosibl trwy gymryd gofal ychwanegol am ein ffyrdd yn ystod y tywydd gwlyb ac oer. Mae hyn yn cynnwys graeanu a mynediad at finiau graeanu.

Mae'r cyngor yn graeanu ffyrdd i leihau oedi a achosir gan dywydd garw ac i helpu diogelwch ar y ffyrdd.

Rhoddir blaenoriaeth i balmentydd a llwybrau canol y ddinas ac i'r rhai sy'n rhoi mynediad i ysgolion, ysbytai, a darparwyr gofal.

Mae gweddill y rhwydwaith yn cael ei flaenoriaethu yn ôl defnydd a risg posib.

Darperir biniau graeanu hefyd i helpu i glirio ffyrdd a llwybrau cymdogaeth pan fydd eira a rhew.

Fe allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth – gan gynnwys cyngor gan y Swyddfa Dywydd ynghylch teithio yn ystod y gaeaf - a gwirio'ch llwybrau graeanu agosaf yn **newport.gov.uk/graeanu**

DATHLU DIWRNOD HAWLIAU GOFALWYR YNG NGHASNEWYDD

Gall bod yn ofalwr fod yn werth chweil ond gall hefyd effeithio arnoch yn gorfforol ac yn emosiynol a gall gofalwyr deimlo'n ynysig yn aml.

Mae gofalwr di-dâl yn rhywun o unrhyw oedran sy'n rhoi cymorth di-dâl i deulu neu ffrindiau na allent ymdopi heb gymorth.

Eleni mae Diwrnod Hawliau Gofalwyr yn cael ei gynnal ddydd Iau 24 Tachwedd.

Bydd cysylltwyr cymunedol Casnewydd yn Nglan yr Afon drwy gydol y dydd rhwng 1pm ac 6pm er mwyn cynnig cyngor a gwybodaeth i ofalwyr.

Am fwy o wybodaeth ar gymorth i ofalwyr ewch i: **newport.gov.uk/gofalwyr** e-bostiwch **community.connectors@newport.gov.uk** neu ffoniwch **01633 235650** a gofynnwch am y cysylltwyr cymunedol.

CYNNYDD O RAN NEWID YN YR HINSAWDD WEDI EI NODI YN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNTAF

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at ei nod o fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

Mae'r cynnydd yn cael ei nodi mewn adroddiad blynyddol rhagarweiniol ar gynllun newid yn yr hinsawdd sefydliadol y cyngor, gafodd ei gymeradwyo gan gabinet y cyngor.

Mae'r cynnydd yn cynnwys cynnydd yn nifer adeiladau'r cyngor sydd bellach yn defnyddio gwres adnewyddadwy yn hytrach na nwy, trydaneiddio fflyd y cyngor ymhellach, a datblygu cynllun ynni ardal leol i helpu i lunio sut rydym yn diwallu anghenion ynni'r ddinas yn y dyfodol mewn ffordd werddach a mwy cynaliadwy.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd, arweinydd y Cyngor: *"Rydym yn falch iawn o allu cyflwyno ein hadroddiad blynyddol rhagarweiniol ar gynllun newid yn yr hinsawdd ein sefydliad.*

"Fel corff cyhoeddus o bwys, rydym yn cydnabod bod dyletswydd arnom i leihau ein hôl troed carbon. Dyna pam y gwnaethom ddatgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol y llynedd, a pham y gwnaethom ddatblygu ein cynllun.

"Rwy'n falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod yn cymryd ein cyfrifoldeb i'n preswylwyr, a'n cymunedau, o ddifrif."

Ychwanegodd y Cynghorydd Yvonne Forsey – Yr aelod cabinet dros newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth:

"Rydyn ni'n gwybod bod gennym ni ffordd bell i fynd i fod yn garbon niwtral, ond rydyn ni'n falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn, ac yn llawn cyffro am y daith sydd i ddod.

"Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dangos hynny, ac yn ysbrydoli ein trigolion i gymryd pa bynnag gamau y gallant yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd."



LLEIHAU EICH ÔL TROED CARBON

Ydych chi'n angerddol dros yr amgylchedd ac eisiau lleihau eich ôl troed carbon?

Mae ein cwrs *Cyflwyniad i Lythrennedd Carbon* i chi - dysgwch sut y gallwch leihau eich effaith ar y blaned a gallech hyd yn oed arbed arian ar eich biliau!

Dysgwch fwy yn **newport.gov.uk/communitylearning**

Y CYNGOR YN CYDNABOD BLWYDDYN HERIOL O'I FLAEN WRTH IDDO YSTYRIED CYLLIDEB

Bydd yr heriau sy'n wynebu trigolion, busnesau ac unigolion ar flaen ystyriaethau'r cyngor wrth iddo gynllunio ei gyllideb ar gyfer 2023/24.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd, arweinydd y Cyngor: *"Does dim dwywaith o gwbl bod y flwyddyn i ddod yn mynd i fod yn heriol. Ein prif nod wrth osod cyllideb y flwyddyn nesaf fydd sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf sylfaenol yn cael eu cynnal i breswylwyr ac y gallwn gefnogi'r rhai sydd angen help llaw ychwanegol.*

"Mi fydd yn fater o gydbwyso anodd iawn fodd bynnag - mae costau darparu gwasanaethau yn cynyddu yn yr un modd â chostau byw pawb. Ac ar yr un pryd, mae mwy o bobl yn cyrchu'r gwasanaethau hynny, gan gynyddu'r galw. Felly mae'n anochel y bydd gennym fwlch sylweddol rhwng pa arian sydd ar gael i ni a'r hyn sydd ei angen arnom ac hyn rydym eisiau ei wario.

"Fodd bynnag, rydym am i Gasnewydd barhau i symud ymlaen fel dinas, felly mae angen i ni reoli ein cyllid yn ofalus i barhau â'n trawsnewidiad. Cyn hir byddwn yn cyhoeddi ein cynllun corfforaethol newydd sy'n amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er bod pethau'n anodd nawr, ry'n ni'n cynllunio ac yn parhau'n bositif am y tymor canolig a'r hirdymor."

Ariennir mwy na thri chwarter o gyllideb y cyngor gan grant gan Lywodraeth Cymru. Mae disgwyl y bydd manylion drafft ynglŷn â faint y bydd y cyngor yn ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn cael ei dderbyn ym mis Rhagfyr ac yn cael eu cadarnhau yn y flwyddyn newydd.

Bydd y ffigurau hyn yn cael eu defnyddio i helpu i gynllunio a chyflwyno nifer o gynigion a fydd yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr ac yna'u cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Cadwch lygad am wybodaeth bellach yn agosach at yr amser ynglŷn â sut gallwch chi gael dweud eich dweud.

Mae'r arian sy'n cael ei godi drwy'r dreth cyngor ond yn cyfrif am lai na chwarter o gyllideb y cyngor, ond cydnabyddir bod hwn yn fil sylweddol iawn i drigolion, er i Gasnewydd gynnal un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru ers blynyddoedd lawer.

I gael mwy o wybodaeth am gyllideb y cyngor, sut rydym yn gwario ein harian, y broses o osod cyllideb ar gyfer 2023/24 a sut a phryd gallwch ddweud eich dweud, ewch i **newport.gov.uk/budget**

CYNNIG GOFAL PLANT CYMRU YN MYND YN DDIGIDOL

Os hoffech chi dderbyn gofal plant a ariennir trwy Gynnig Gofal Plant Cymru o fis Ionawr 2023, bydd angen i chi wneud cais trwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd.

Gwasanaeth dwyieithog ar-lein yw hwn y gellir cael hyd iddo trwy liniadur, ffôn symudol neu lechen. Mae ceisiadau ar gyfer y nifer a dderbynnir ym mis Ionawr 2023 yn agor y mis hwn.

Os ydych eisoes yn derbyn y Cynnig, does dim angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch yn aros ar y system bresennol nes i chi ddod yn anghymwys.

Fodd bynnag, os hoffech chi dderbyn gofal plant a ariennir trwy Gynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer plentyn arall o fis Ionawr 2023, bydd angen i chi wneud cais trwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **newport.gov.uk/childcareoffer**

THE CELTIC COLLECTION

Christmas Career Journeys

Swyddi Dros-dro

dros wyl y Nadolig

Sganiwch yma i gofrestru eich diddordeb

CELTIC MANOR RESORT

COLDRA COURT HOTEL BY CELTIC MANOR

ICC WALES

GWASTRAFF AC AILGYLCHU

CASGLIADAU GWASTRAFF GARDD I DDOD I BEN DROS Y GAEAF

Mae casgliadau gwastraff gardd wedi'u gohirio yn ystod misoedd y gaeaf a byddant yn ailddechrau'r wythnos yn dechrau 27 Chwefror 2023.

Bydd casgliadau gwastraff gardd olaf 2022 rhwng dydd Llun 21 Tachwedd a dydd Gwener 2 Rhagfyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, gellir mynd â gwastraff gwyrdd i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Docks Way am ddim.

Gellir rhoi blodau wedi'u torri yn y cadis gwastraff bwyd gyda'r gwastraff bwyd.

CASGLIADAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD

Er bod Dydd Nadolig a Dydd Calan ill dau ar ddydd Sadwrn eleni, ni fydd unrhyw un o ddiwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor na Wastesavers yn newid.

Edrychwch ar eich diwrnod casglu ar **newport.gov.uk/ailgylchu**

DEALL EIN CYNULLEIDFA

DYWEDWCH WRTHYM: BETH HOFFECH CHI EI WYBOD?

Rydyn ni eisiau cyfathrebu â chi gystal ag y gallwn.

P'un a yw'n clywed am gasgliadau biniau ar Facebook, neu ddarllen am ein cynlluniau i'r dyfodol yn Newport Matters, rydym am rannu gyda chi newyddion a gwybodaeth y mae gennych ddiddordeb ynddo, drwy sianeli sy'n addas i chi.

Er mwyn ein helpu i'ch cyrraedd yn y ffordd orau bosib, byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gwblhau ein harolwg byr, fel y gallwn ddeall mwy am yr hyn rydych chi eisiau ei wybod, a sut rydych chi eisiau clywed gennym ni.

I DDWEUD EICH DWEUD, NAILL AI LLENWCH Y FFURFLEN HON A'I HANFON YN ÔL MEWN AMLEN A5 (NEU LAI) AT FREEPOST: POLICY AND PARTNERSHIP TEAM NEU LLENWCH YR AROLWG AR-LEIN YN NEWPORT.GOV.UK/HAVEYOURSAY.

1. SUT RYDYCH CHI'N CAEL GWYBODAETH GAN Y CYNGOR?

- ☐ Gwefan

Sianelu cyfryngau cymdeithasol

- ☐ Facebook
- ☐ Twitter
- ☐ Instagram

- ☐ Materion Casnewydd
- ☐ YouTube
- ☐ E-gylchlythyr trigolion
- ☐ Taflenni
- ☐ Byrddau hysbysebu
- ☐ Hysbysebion sain
- ☐ Canolfan gyswllt
- ☐ Ap My Newport
- ☐ Ysgolion
- ☐ Cyswllt â staff/swyddogion
- ☐ Drwy bapurau newydd lleol neu wefannau newyddion
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

2. SUT HOFFECH CHI DDERBYN GWYBODAETH GENNYM YN Y DYFODOL?

- ☐ Gwefan

Sianelu cyfryngau cymdeithasol

- ☐ Facebook
- ☐ Twitter
- ☐ Instagram
- ☐ Tik Tok
- ☐ Arall...

- ☐ Materion Casnewydd
- ☐ YouTube
- ☐ E-gylchlythyr trigolion
- ☐ Taflenni
- ☐ Byrddau hysbysebu
- ☐ Hysbysebion sain
- ☐ Canolfan gyswllt
- ☐ Ap My Newport
- ☐ Ysgolion
- ☐ Cyswllt â staff/swyddogion
- ☐ Drwy bapurau newydd lleol neu wefannau newyddion
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

3. PA FEYSYDD O'N GWAITH YDYCH CHI AM DDERBYN GWYBODAETH AMDANYNT?

- ☐ Teithio llesol
- ☐ Gwasanaethau cymdeithasol oedolion
- ☐ Cymorth i fusnesau
- ☐ Gwasanaethau'r swyddfa gofrestru (genedigaethau, seremonïau, marwolaethau, priodasau)
- ☐ Parcio ceir
- ☐ Gwasanaethau cymdeithasol plant
- ☐ Cefnogaeth/cymorth a chyngor costau byw
- ☐ Cyfarfodydd y Cyngor
- ☐ Y Dreth Gyngor a budd-daliadau
- ☐ Yr Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd
- ☐ Iechyd Yr Amgylchedd a Safonau Masnach
- ☐ Digwyddiadau
- ☐ Maethu a mabwysiadu
- ☐ Treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth
- ☐ Tai
- ☐ Swyddi a recriwtio
- ☐ Llyfrgelloedd
- ☐ Hybiau cymdogaeth a gwybodaeth gymunedol
- ☐ Parciau a mannau agored
- ☐ Partneriaethau, gwaith rhanbarthol a chenedlaethol
- ☐ Cynllunio
- ☐ Trafnidiaeth gyhoeddus
- ☐ Ffyrdd a gwaith ffordd
- ☐ Ysgolion
- ☐ Gwastraff ac ailgylchu - casgliadau
- ☐ Gwastraff ac ailgylchu - newyddion nad ydynt yn ymwneud â chasgliadau

4. SUT Y GALLEN NI WELLA EIN CYFATHREBU Â THRIGOLION YN EICH BARN CHI?

5. BETH YW EICH RHYW?

- ☐ Benyw
- ☐ Gwryw
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Arall
- ☐ Dewis peidio â dweud

6. FAINT YW EICH OEDRAN?

- ☐ Dan 18
- ☐ 18-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65-74
- ☐ 75+
- ☐ Dewis peidio â dweud

7. PA ARDAL O GASNEWYDD YR YDYCH CHI'N BYW YNDDI?

- ☐ Allt-yr-ynn
- ☐ Always
- ☐ Beechwood
- ☐ Betws
- ☐ Llangadwaladr Trefesgob a Langstone
- ☐ Caerllion
- ☐ Gaer
- ☐ Graig
- ☐ Llan-wern
- ☐ Llyswyry
- ☐ Malpas
- ☐ Pillgwenlli
- ☐ Ringland
- ☐ Dwyrain Tŷ-du
- ☐ Gogledd Tŷ-du
- ☐ Gorllewin Tŷ-du
- ☐ Shaftesbury
- ☐ Sain Silian
- ☐ Stow Hill
- ☐ Parc Tredegar a Maerun
- ☐ Victoria
- ☐ Dewis peidio â dweud

Rydym hefyd yn cynnig cyfle i unrhyw un sy'n cymryd rhan yn ein harolwg i ennill taleb £50 Newport NOW, sy'n gallu cael ei gwario mewn dros 50 o fusnesau yng nghanol y ddinas.

I fynd i mewn i'r arolwg, ychwanegwch eich enw a manylion cyswllt i'r amlen gyda'ch arolwg

Bydd enillydd yn cael ei ddewis ar hap o bob cais a dderbyniwyd cyn dydd Sadwrn 17 Rhagfyr 2022.